

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy
a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mapio'r
Cwricwlwm

ADCDF A'R FfLIRh

Blwyddyn 2

Y Fframwaith
Llythrennedd a
Rhifedd Cenedlaethol



Lluniwyd y ddogfen hon gan:

Grŵp Swyddogion ADCDF Cymru Gyfan i gefnogi ysgolion sy'n cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol trwy weithgarwch ADCDF.

Gyda Chymorth gan:

Datblygu Cymunedau Dysgu Byd-eang Hyderus - prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd



Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gyda chymorth yr Undeb Ewropeaidd. Mae cynnwys y cyhoeddiad hwn yn gyfrifoldeb llwyr CBS Castell-nedd Port Talbot o ran darparu'r prosiect a ariennir gan yr UE ac nid ydyw mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchu barn yr Undeb Ewropeaidd.

Gwybodaeth

Datblygwyd yr adnodd hwn i roi gwybodaeth a syniadau i chi er mwyn darparu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol trwy weithgarwch a phrosiectau sy'n cefnogi Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.



Fframwaith Llythrennedd

Gwybodaeth

LLAFAREDD			
Tudalen	Elfennau	Agweddau	Adnoddau
8	Datblygu a chyflwyno syniadau a gwybodaeth	Siarad	Ymchwilio i Wlad
9			Dadl Masnach Deg
10			Smwddi Masnach Deg
11			Cyflwyniad i Lywodraethwyr yr Ysgol
12			Gwasanaeth Eco
13			Siop Fwyd Iach
14			Rolau Cymunedol
15		Gwranddo	Siaradwr Masnach Deg
16			The Day of Ahmed's Secret
17			Y Fferm Organig
18			Adroddiadau ADCDF
19			Ffilm Siocled Masnach Deg
20		Cydweithio a thrafod	Defnyddio Dwr
21			Athroniaeth i Blant
22			Teithio Cynaliadwy
23			Gweithgareddau Hamdden

Fframwaith Llythrennedd

Gwybodaeth

DARLLEN			
Tudalen	Elfennau	Agweddau	Adnoddau
24	Lleoli, dewis a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	Llyfrau ADCDF
25			Llyfrau ADCDF 2
26			Llyfrau ADCDF 3
27			Ymchwil Eco
28			Bean to Bar
29			Global Gang
30	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Dealltwriaeth	The Bucket Garden
31			Gwyllo Adar RSPB
32			Who Will Save Us
33			George saves the World
34		Ymateb a dadansoddi	Send A Cow
35			Diwrnod Karabo yn Lesotho
36			Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff

YSGRIFENNU			
Tudalen	Elfennau	Agweddau	Adnoddau
37	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, diben, darllenwyr	Pwyllgor Eco-Ysgol
38			Gweithredoedd Eco
39			Cerdd Eco
40			Prydau Ysgol
41			Rhandir Ysgol
42		Strwythur a threfn	Bwydydd Iach
43			Cynnyrch Lleol
44			Newyddion Eco
45	Ysgrifennu'n gywir	Iaith	Newyddion Byd-eang
46			Adroddiad ar Daith Ysgol

Fframwaith Llythrennedd

Gwybodaeth

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Tudalen	Elfennau	Adnoddau
47	Nodi prosesau a chysylltiadau	Taith Bwyd
48		Archwiliad Gwastraff
49		Astudio'r Tywydd
50		Safle Rhandir Ysgol
51		Ymgyrch Arbed Dwr
52	Cynrychioli a chyfathrebu	Asesiadau Eco-Ysgol
53		Arolygon Eco
54	Adolygu	Peidio â gwastraffu dim
55		Gwyllo Adar RSPB

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Tudalen	Elfennau	Adnoddau
56	Defnyddio ffeithiau a pherthnasoedd rhifau	Arian Naturiol
57	Ffracsiynau, canrannau, degol a chymarebau	Gweithgaredd Cerrig Bach
58	Amcangyfrif a gwirio	Defnyddio Natur
59	Rheoli Arian	Siop Ffrwythau
60		Chwarae Rôl Marchnad Ffermwyr
61		Addewidion Eco
62		Diwrnod Menter

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Tudalen	Elfennau	Adnoddau
63	Hyd, pwysau, màs, cynhwysedd	Rhandir Dosbarth
64		Ailgylchu yn yr Ysgol
65		Cyfeintiau Dwr
66 - 67	Amser	Amser Lleol a Byd-eang
68	Tymheredd	Tymereddau Gwahanol
69	Arwynebedd ac ongl cyfaint a lleoliad	Helfa Drysor Eco

Fframwaith Rhifedd

Gwybodaeth

DEFNYDDIO SGILIAU DATA		
Tudalen	Elfennau	Adnoddau
70	Casglu a chofnodi data. Cyflwyno a dadansoddi data. Dehongli'r canlyniadau	Monitro Ynni
71		Arolwg Bioamrywiaeth
72		Arolwg Cynllun Teithio i'r Ysgol
73		Defnyddio Dwr yng Nghymru ac yn Uganda

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Fynegi barn, rhoi rhesymau a darparu atebion priodol i gwestiynau

Ymchwilio i Wlad

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Rhowch adborth yn dilyn ymchwilio i wlad (bwyd, arferion, iaith a diwylliant) a nodwch eich hoff bethau am y wlad honno.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Fynegi barn, rhoi rhesymau a darparu atebion priodol i gwestiynau

Dadl Masnach Deg

ADCDF: Dewisiadau a Phenderfyniadau, Cyfoeth a Thlodi, Newid yn yr Hinsawdd

Dadleuwch am nwyddau Masnach Deg a nwyddau nad ydynt yn Fasnach Deg a thrafodwch y cynnyrch sydd ar gael.

Dolen:

<http://fairtradewales.com/resources>

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Ymestyn eu syniadau neu'u disgrifiadau trwy roi'r hyn a ddywedant mewn trefn gan gynnwys manylion perthnasol

Smwddi Masnach Deg

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Adroddwch sut i wneud smwddi Masnach Deg.

Dolen:

<http://fairtradewales.com/resources>

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Siarad yn glir i amrywiaeth o gynulleidfaoedd

Cyflwyniad i Lywodraethwyr yr Ysgol

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Cyfrannwch at gyflwyniad i lywodraethwyr ar ffyrdd o wella effeithlonrwydd ynni yn yr ysgol.

Dolen:

www.keepwalestidy.org/getting-started/getting-started/resources

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Siarad yn glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd

Gwasanaeth Eco

ADCDF: Pob Un

Cymerwch ran mewn gwasanaeth ar lwyddiannau ar bwnc Eco-Ysgol penodol, gan gynnwys y rhesymau dros y prosiect a'r buddion i'r ysgol a'r amgylchedd.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Fabwysiadu rôl benodol a defnyddio iaith briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig

Siop Fwyd Iach

ADCDF: Iechyd, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Helpwch i redeg siop fwyd iach.

Dolen:

Yn cynnwys

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Siarad

Gall dysgwyr:

- Fabwysiadu rôl benodol a defnyddio iaith briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig

Rolau Cymunedol

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Ymgwymerwch â rolau pobl wahanol yn y gymuned a thrafod y problemau sy'n ymwneud â sbwriel ac ardaloedd â phroblemau sbwriel.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Gwrando

Gall dysgwyr:

- Wrando ar eraill yn astud, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad yn ôl yr angen

Siaradwr Masnach Deg

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Cwblhewch siart KWL cyn ac ar ôl gwrando ar siaradwr Masnach Deg.

Dolen:

<http://schools.fairtrade.org.uk/resources>

Yn cynnwys: Ffilmiau sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd, blynyddoedd a themâu amrywiol.

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Gwrando

Gall dysgwyr:

- Wrando ar eraill yn astud, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad yn ôl yr angen

The Day Of Ahmed's Secret

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Gwrando ar oedolyn yn darllen 'The Day of Ahmed's Secret' ac ailadrodd y stori.

Dolen:

<http://schools.fairtrade.org.uk/resources>

Yn cynnwys: Ffilmiau sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd, blynyddoedd a themâu amrywiol.

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Gwranddo

Gall dysgwyr:

- Ailadrodd naratif gwybodaeth y maent wedi'i chlywed, gan gael trefn y digwyddiadau'n gywir

Y Fferm Organig

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol, Treuliant a Gwastraff

Ymwelwch â fferm organig a disgrifiwch ddiwrnod y ffermwr.

Dolen:

Yn cynnwys

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Gwrando

Gall dysgwyr:

- Ailadrodd naratif gwybodaeth y maent wedi'i chlywed, gan gael trefn y digwyddiadau'n gywir

Adroddiadau ADCDF

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant, Cyfoeth a Thlodi

Adroddwch yn ôl i ddosbarth arall ar ôl i rywun sydd wedi gwirfoddoli dramor ymweld â'r ysgol.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Gwrando

Gall dysgwyr:

- Ddangos dealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i glywed trwy ofyn cwestiynau perthnasol i ganfod gwybodaeth benodol

Siocled Masnach Deg

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Gwylwch ffilm Masnach Deg am siocled ac atebwch gyfres o gwestiynau am y ffilm.

Dolen:

<http://www.fairtradeafrica.net/producers-products/producer-video/>
- the chocolate song - cocoa producers in cote d'ivoire
<http://schools.fairtrade.org.uk/resources>

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Cydweithio a thrafod

Gall dysgwyr:

- Gyfrannu at drafodaeth gan barhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd tro i siarad

Defnyddio Dwr

ADCDF: Treuliant a Gwastraff, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Trafodwch pa bethau sy'n defnyddio dŵr, faint rydym yn ei ddefnyddio bob dydd / wythnos, yr hyn y mae gwledydd eraill yn ei ddefnyddio a sut y gallem leihau ein defnydd o ddŵr.

Dolen:

<http://www.livingandlearningwithwater.com/>

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Cydweithio a thrafod

Gall dysgwyr:

- Gyfrannu at drafodaeth gan barhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd tro i siarad

Athroniaeth i Blant

ADCDF: Pob Un

Trafodwch bynciau trwy ddefnyddio'r model Athroniaeth i Blant (P4C).

Dolen:

<http://p4c.com>

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Cydweithio a thrafod

Gall dysgwyr:

- Rannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg

Teithio Cynaliadwy

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd

Codi ymwybyddiaeth o deithio cynaliadwy: – cynhaliwch, arolwg teithio fel grwp, gan greu posteri a thaflenni, cyfansoddi cân rapio a chynnal gwasanaeth i'r ysgol gyfan.

Dolen:

<http://www.keepwalestidy.org/getting-started/getting-started/resources>

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

LLAFAREDD

Elfennau: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agweddau: Cydweithio a thrafod

Gall dysgwyr:

- Rannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg.

Gweithgareddau Hamdden

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd, lechyd

Siaradwch am hoff weithgareddau hamdden, gan eu graddio yn ôl yr effaith ar ffitrwydd. Paratowch gyflwyniad ar eich canfyddiadau ac yna anogwch bawb i roi cynnig ar weithgaredd hamdden gwahanol a rhoi adborth arno.

Dolen:

Yn cynnwys

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Ddewis deunyddiau darllen yn annibynnol a rhoi rhesymau dros eu dewisiadau

Llyfrau ADCDF

ADCDF: Pob Un

Darparwch y llyfrau canlynol iddynt ddewis ohonynt:

The World Came to My Place Today

Handa's Surprise

Oliver's Vegetables

Oliver's Milkshake

Oliver's Fruit Salad

Eddie's Garden and How to Make Things Grow

Dinosaurs and all that rubbish

Yum, Yum – A book about food chains

Peppa Pig's Recycling Fun

Tasty Poems

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Ddarllen amrywiaeth o destunau addas yn fwy cywir ac yn fwy rhugl

Llyfrau ADCDF 2

ADCDF: Pob Un

Darparwch y llyfrau canlynol iddynt ddewis ohonynt:

Gwlad Bell Bell

Annwyl Dadi

The Whale's Song

Dolphin Boy

Grace and Family

Dolen:

Yn cynnwys

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Ddarllen yn uchel gan roi sylw i atalnodi, gan gynnwys atalnodau llawn, marciau cwestiwn, ebychnodau a dyfynodau, gan amrywio'r donyddiaeth, y llais a'r cyflymder

Llyfrau ADCDF 3

ADCDF: Pob Un

Darparwch y llyfrau canlynol iddynt ddewis ohonynt:

Dinasours and all that rubbish

Yum Yum, a book about food chains

Peppa Pig's Recycling Fun

Tasty Poems

Gregory Cool

My World Your World

Round the World in the Great Balloon

Daliwch yr Afr 'na

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Nodi a defnyddio nodweddion mewn testunau e.e. *teitlau, penawdau a lluniau i ddarganfod a deall gwybodaeth benodol*

Ymchwil Eco

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Defnyddiwch lyfr e.e. am anifeiliaid mewn perygl i ganfod gwybodaeth am deigrod.

Dolen:

Yn cynnwys

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio nodweddion gwahanol destunau i ddeall yr ystyr e.e. *Iluniau, siartiau a'r gosodiad*

Bean To Bar

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi

Gêm “From Cocoa Bean to Chocolate Bar”.

Dolen:

www.fairtradewales.com/wp-content/uploads/Beantobargame2.pdf

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Darganfod, dewis a defnyddio gwybodaeth

Agweddau: Strategaethau darllen

Gall dysgwyr:

- Nodi allweddeiriau i chwilio am wybodaeth ar sgrin, a diwygio geiriau chwilio yn ôl yr angen

Global Gang

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi

Gêm chwilio am “weithwyr carpedi” yn Global Gang.

Dolen:

www.christianaid.org.uk/resources/games/play.aspx

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Dealltwriaeth

Gall dysgwyr:

- Adalw ac ailadrodd naratif a gwybodaeth o destunau â rhywfaint o fanylion

The Bucket Garden

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Defnyddiwch y PowerPoint The Bucket Garden ac adroddwch y broses o dyfu tatws mewn bwced.

Dolen:

www.foodafactoflife.org.uk/sheet.aspx?siteid=14§ionid=100&contentid=434

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Dealltwriaeth

Gall dysgwyr:

- Nodi gwybodaeth o destun yn gywir a'i threfnu i gategorïau neu benawdau

Gwyllo Adar RSPB

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Darllenwch ddeunyddiau ar yr adar, yna'u grwpio yn seiliedig ar p'un ai y gallent eu gweld ar borthwr adar neu beidio.

Dolen:

<http://www.rspb.org.uk/schoolswatch/>

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Dealltwriaeth

Gall dysgwyr:

- Egluro manylion perthnasol o destunau

Who Will Save Us

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd

Defnyddiwch y llyfr 'Who Will Save Us' i ysgogi trafodaeth ac i ddod i ddeall capiau rhew sy'n toddi ac effeithiau sylfaenol newid yn yr hinsawdd.

Dolen:

No websites suggested

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Dealltwriaeth

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i gefnogi dealltwriaeth o destunau

George Saves The World

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Darllenwch 'George Saves The World by Lunchtime' ac adroddwch sut i leihau gwastraff yn y cartref yn rhan o brosiect ar leihau gwastraff.

Dolen:

No websites suggested

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Ymateb a dadansoddi

Gall dysgwyr:

- Fynegi barn am wybodaeth a manylion mewn testun

Send A Cow

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi

Siaradwch am blant yn Kenya sydd heb fynediad at ddŵr glân.

Chwiliwch am Prisca ar y wefan.

Dolen:

www.sendacow.org.uk/lessonsfromafrica/resources

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Ymateb a dadansoddi

Gall dysgwyr:

- Ddangos dealltwriaeth a mynegi barn ar iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau

Diwrnod Karabo yn Lesotho

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi, Hunaniaeth a Diwylliant

Darllenwch y disgrifiad o Ddiwrnod Karabo yn Lesotho, llenwch y tabl a chymharwch y diwrnod â'ch diwrnod chi yn yr ysgol. Chwiliwch am Lesotho ar y wefan.

Dolen:

www.sendacow.org.uk/lessonsfromafrica/resources

DARLLEN

Elfennau: Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd

Agweddau: Ymateb a dadansoddi

Gall dysgwyr:

- Wneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc

Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Addaswch wybodaeth o'r wefan 'Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff' i'r disgyblion gael darllen y ffeithiau a thrafodwch, yna gwahoddwch staff y gegin i drafod gwastraff bwyd yr ysgol. Crëwch bosteri gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd ganddynt.

Dolen:

<http://wales.lovefoodhatewaste.com/content/facts-about-food-waste-1>

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Ystyr, dibenion, darllenwyr

Gall dysgwyr:

- Ysgrifennu at ddibenion gwahanol

Pwyllgor Eco-Ysgol

ADCDF: Pob Un

Ysgrifennwch gais i ddod yn aelod o Bwyllgor Eco/y Cyngor Ysgol.

Dolen:

No websites suggested

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Ystyr, dibenion, darllenwyr

Gall dysgwyr:

- Ysgrifennu at ddibenion gwahanol

Gweithredoedd Eco

ADCDF: Dewisiadau a Phenderfyniadau, Newid yn yr Hinsawdd

Ysgrifennwch negeseuon Eco i bob dosbarth – i ddiffodd y goleuadau/troi'r tapiau i ffwrdd a chau'r drysau. Sicrhewch fod y negeseuon yn briodol i'r oedrannau gwahanol.

Dolen:

No websites suggested

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Ystyr, dibenion, darllenwyr

Gall dysgwyr:

- Ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall, a allai gynnwys manylion a lluniau

Cerdd Eco

ADCDF: Pob Un

Ysgrifennwch lythyr, cerdd neu ddisgrifiad ynghylch taith hamdden i'w anfon at eich ysgol bartner.

Dolen:

No websites suggested

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Ystyr, dibenion, darllenwyr

Gall dysgwyr:

- Siarad er mwyn trefnu'r ysgrifennu

Prydau Ysgol

ADCDF: lechyd

Siaradwch am brydau ysgol a sut y gellid eu gwella ac yna ysgrifennwch gerdyn post at eich adran arlwyo yn nodi beth fydddech chi'n hoffi ei newid a pham.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Ystyr, dibenion, darllenwyr

Gall dysgwyr:

- Arbrofi â fformatau a gosodiadau gwahanol ar y sgrin, trwy ddefnyddio'r cyfleuster i symud testun a lluniau o gwmpas yn rhwydd

Rhandir Ysgol

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Defnyddiwch app megis crëwr llyfrau i greu e-lyfr am randir eich ysgol.

Dolen:

Yn cynnwys

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Strwythur a threfnu

Gall dysgwyr:

- Ddilyn strwythur wrth ysgrifennu â chymorth
e.e. adroddiadau, rhestrau

Bwydydd Iach

ADCDF: Iechyd

Cymharwch a chyferbynnwch fwydydd iach a bwydydd nad ydynt yn iach trwy ddefnyddio ffrâm ysgrifennu.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Strwythur a threfnu

Gall dysgwyr:

- Drefnu ysgrifennu â dechrau, canol a diwedd

Cynnyrch Lleol

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Disgrifiwch dyfu, cynaeafu a defnyddio llysiau neu ffrwythau yn yr ysgol.

Dolen:

Yn cynnwys

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Strwythur a threfnu

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r diben a'r darllenydd

Newyddion Eco

ADCDF: Treuliant a Gwastraff, Newid yn yr Hinsawdd

Ysgrifennwch labeli i'w gludo o gwmpas yr ysgol yn annog eraill i arbed ynni a chyfrannu at gylchlythyr i annog pobl gartref i arbed ynni.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Llythrennedd

Blwyddyn 2

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Strwythur a threfnu

Gall dysgwyr:

- Ddeall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu

Llythyrau Byd-eang

ADCDF: Diwylliant a Hunaniaeth

Cyfnewid llythyrau/e-byst â phlant mewn ysgol arall.

Dolen:

Yn cynnwys

YSGRIFENNU

Elfennau: Trefnu syniadau a gwybodaeth

Agweddau: Strwythur a threfnu

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio geiriau syml sy'n ymwneud â'r pwnc yn briodol

Adroddiad ar Daith Ysgol

ADCDF: Pob Un

Ysgrifennwch am ymweliad â Gardd Fotaneg Cymru neu daith debyg.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Nodi prosesau a chysylltiadau

Gall dysgwyr:

- Drosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae ac yn yr ystafell ddosbarth

Taith Bwyd

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd, Dewisiadau a Phenderfyniadau

Edrychwch ar o le y daw cynnyrch bwyd gwahanol, cyfrifwch eu taith bwyd a lluniwch fap taith bwyd. Rhestrwch yr eitemau bwyd o'r daith fyrraf i'r daith hiraf.

Dolen:

Yn cynnwys

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Nodi prosesau a chysylltiadau

Gall dysgwyr:

- Nodi camau i gwblhau'r dasg neu ei datrys

Archwiliad Gwastraff

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Gwnewch archwiliad a chynhaliwch ymgyrch i leihau gwastraff yn yr ysgol a phenderfynwch ar yr hyn i'w wneud i weld a fu'n llwyddiannus.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Nodi prosesau a chysylltiadau

Gall dysgwyr:

- Ddewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio

Astudio'r Tywydd

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd

Cyfrifwch y dwr a arbedwyd yn dilyn prosiect effeithlonrwydd dwr.

Dolen:

www.livingandlearningwithwater.com

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Nodi prosesau a chysylltiadau

Gall dysgwyr:

- Ddewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio

Safle Rhandir Ysgol

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Mesurwch ardal ar gyfer rhandir, gan gynnwys adrannau ar gyfer pob dosbarth.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Nodi prosesau a chysylltiadau

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol i gyfrannu at amcangyfrifon

Ymgyrch Arbed Dwr

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Amcangyfrifwch faint o ddwr a ddefnyddir wrth frwsio dannedd neu olchi dwylo yn rhan o ymgyrch arbed dwr.

Dolen:

www.livingandlearningwithwater.com

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Cynrychioli a chyfathrebu

Gall dysgwyr:

- Gyflwyno gwaith ar lafar, trwy luniau ac yn ysgrifenedig a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i fynegi'r data a gasglwyd

Eco

ADCDF: Pob Un

Cyflwyniadau ar gyflawniadau Eso-Ysgol yn erbyn targedau.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Cynrychioli a chyfathrebu

Gall dysgwyr:

- Ddyfeisio a mireinio dulliau anffurfiol a phersonol o gofnodi, symud i ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif

Arolygon Eco

ADCDF: Pob Un

Mireiniwch gofnodion arolygon ar gyfer teithio i'r ysgol, ynni, ailgylchu, bioamrywiaeth ar dir yr ysgol a gweithgareddau iechyd.

Cynhaliwch arolwg gwastraff.

Dolen:

www.keepwalestidy.org/getting-started/getting-started/resources

DATBLYGU RHESYMU RHIFIADOL

Elfennau: Adolygu

Gall dysgwyr:

- Ddehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol

Peidio â gwastraffu dim

ADCDF: Pob Un

Gwerthuswch ddata eich arolwg Eco-Ysgol a lluniwch adroddiad ar y data i amlygu'r llwyddiannau a'r meysydd y mae angen gweithio arnynt.

Dolen:

<http://www.keepwalestidy.org/getting-started/getting-started/resources>

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Adolygu

Gall dysgwyr:

- Ddehongli gwybodaeth a gyflwynwyd mewn siartiau a diagramau a llunio casgliadau priodol

Gwyllo Adar RSPB

ADCDF: Pob Un

Edrychwch ar graffiau a wnaed o adar a welwyd yn ystod digwyddiad Gwyllo Adar yr RSPB i ddarganfod pa rai yw'r ymwelwyr mwyaf cyffredin i ardd yr ysgol.

Dolen:

<http://www.rspb.org.uk/schoolswatch/>

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Defnyddio feithiau a pherthnasoedd rhifau

Gall dysgwyr:

- Gyfrif setiau o wrthrychau trwy eu grwpio bob yn 2, 5 neu 10

Arian Naturiol

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Yn yr awyr agored, defnyddiwch ddail fel arian e.e. dail coch yn hafal i 2, dail coed castan yn hafal i 5, a mes yn hafal i 10.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Ffracsiynau, canrannau degol a chymarebau

Gall dysgwyr:

- Ganfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol s

Gweithgaredd Cerrig Bach

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Yn yr awyr agored, casglwch gerrig bach, trefnwch nhw a'u defnyddio i greu cylchoedd, rhannwch y cylchoedd yn hanner, llenwch yr haneri/chwarteri â lliwiau gwahanol.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Amcangyfrif a gwirio.

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio strategaethau gwirio:
Ailadrodd adio mewn trefn wahanol
Defnyddio haneru a dyblu o fewn 20

Defnyddio Natur

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Yn yr awyr agored, adiwch a thynnwch trwy ddefnyddio brigau, cregyn, mes etc.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Rheoli Arian

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1

Siop Ffrwythau

ADCDF: Iechyd

Prynwch a gwerthwch eitemau yn rhan o'r Siop Ffrwythau.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Rheoli Arian

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio cyfuniadau gwahanol o arian i dalu am eitemau hyd at £1

Chwarae Rôl Marchnad Ffermwyr

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Chwaraewch Rôl Marchnad Ffermwyr gan brynu a gwerthu eitemau.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Rheoli Arian

Gall dysgwyr:

- Ganfod cyfansymiau a rhoi newid o luosrifau o 10 c

Addewidion Eco

ADCDF: Dewisiadau a Phenderfyniadau, Treuliant a Gwastraff

Cymerwch arian am addewidion Eco i'w rhoi ar y goeden
Addewidion Eco yn ffair yr ysgol.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU RHIF

Elfennau: Rheoli Arian

Gall dysgwyr:

- Ganfod cyfansymiau a rhoi newid o luosrifau o 10 c

Diwrnod Menter

ADCDF: Dewisiadau a Phenderfyniadau, Treuliant a Gwastraff

Cymerwch ran mewn Diwrnod Menter gan werthu eitemau a wnaed o ddeunydd gwastraff.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Hyd, Pwysau, Màs, Cynhwysedd

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio unedau safonol i fesur
Hyd, uchder a phellter: Pwysau, hanner metrau neu gentimetrau
Pwysau/Màs: Cilogramau neu bwysau 10 gram
Cynhwysedd: Litrau

Rhandir Dosbarth

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Mesurwch ardal ar gyfer rhandir, gan gynnwys adrannau ar gyfer pob dosbarth.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Hyd, Pwysau, Màs, Cynhwysedd

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio unedau safonol i fesur
Hyd, uchder a phellter: Pwysau, hanner metrau neu gentimetrau
Pwysau/Màs: Cilogramau neu bwysau 10 gram
Cynhwysedd: Litrau

Ailgylchu yn yr Ysgol

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Monitrwch waith ailgylchu'r ysgol neu'r dosbarth, gan bwysu'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu bob wythnos a chyfrifwch faint o wastraff a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi. Allwch chi leihau hyn ymhellach?

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Hyd, Pwysau, Màs, Cynhwysedd

Gall dysgwyr:

- Ddefnyddio unedau safonol i fesur
Hyd, uchder a phellter: Pwysau, hanner metrau neu gentimetrau
Pwysau/Màs: Cilogramau neu bwysau 10 gram
Cynhwysedd: Litrau

Cyfeintiau Dwr

ADCDF: Treuliant a Gwastraff

Mesurwch y cyfaint o ddŵr a ddefnyddir i frwsio dannedd neu olchi dwylo fel rhan o ymgyrch arbed dŵr.

Dŵr Cymru/Byw a Dysgu gyda Dŵr.

Dolen:

<http://www.livingandlearningwithwater.com>

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Amser

Gall dysgwyr:

- Ddarllen ‘hanner awr wedi’, ‘chwarter wedi’ a ‘chwarter i’ ar gloc analog

Amser Lleol a Byd-eang

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Gosodwch gloc i amser gwlad arall, er enghraifft, Tsieina wrth astudio blwyddyn newydd y Tsieineaid, neu’r amser yn eich ysgol bartner. Darllenwch yr amser ar adegau gwahanol o’r diwrnod.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Amser

Gall dysgwyr:

- Ddarllen oriau a munudau ar gloc digidol 12 awr

Amser Lleol a Byd-eang

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Gosodwch gloc i amser gwlad arall, er enghraifft, Tsieina wrth astudio blwyddyn newydd y Tsieineaid, neu'r amser yn eich ysgol bartner. Darllenwch yr amser ar adegau gwahanol o'r diwrnod.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Tymheredd

Gall dysgwyr:

- Gymharu tymereddau dyddiol trwy ddefnyddio thermomedr

Tymereddau Gwahanol

ADCDF: Hunaniaeth a Diwylliant

Cyfnewidiwch ddarlleniadau thermomedr a gymerwyd dros bythefnos â'ch ysgol bartner mewn gwlad arall.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU MESUR

Elfennau: Arwynebedd a chyfaint. Ongl a safle

Gall dysgwyr:

- Adnabod hanner a chwarter tro yn glocwedd ac yn wrthglocwedd

Helfa Drysor Eco

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Rhowch a dilynwch gyfarwyddiadau mewn helfa drysor yn yr awyr agored.

Dolen:

Yn cynnwys

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Casglu a chofnodi data. Cyflwyno a dadansoddi data. Dehongli'r canlyniadau

Gall dysgwyr:

- Gasglu a chofnodi data o:
 - Restrau a thablau
 - Diagramau
 - Graffiau bloc
 - Pictogramau lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned

Monitro Ynni

ADCDF: Treuliant a Gwastraff, Newid yn yr Hinsawdd

Monitrowch oleuadau ac offer trydanol sydd wedi'u gadael ymlaen o gwmpas yr ysgol dros gyfnod un wythnos, cynhaliwch ymgyrch lleihau ynni ac yna monitro eto a chymharu'r canlyniadau.

Dolen:

Yn cynnwys

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Casglu a chofnodi data. Cyflwyno a dadansoddi data. Dehongli'r canlyniadau

Gall dysgwyr:

- Gasglu a chofnodi data o:
 - Restrau a thablau
 - Diagramau
 - Graffiau bloc
 - Pictogramau lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned

Arolwg Bioamrywiaeth

ADCDF: Yr Amgylchedd Naturiol

Cynhaliwch arolwg bioamrywiaeth ar dir yr ysgol cyn ac ar ôl ymgymryd â phrosiect tir yr ysgol

Dolen:

Beth sydd yn eich clawdd?

<http://www.field-studies-council.org/documents/projects/opal/Hedges%20shrub%20ID%20for%20primary.pdf>

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Casglu a chofnodi data. Cyflwyno a dadansoddi data.
Dehongli'r canlyniadau

Gall dysgwyr:

- Gasglu a chofnodi data o:
 - Restrau a thablau
 - Diagramau
 - Graffiau bloc
 - Pictogramau lle mae'r symbol yn cynrychioli un uned

Arolwg Teithio i'r Ysgol

ADCDF: Newid yn yr Hinsawdd

Cynhaliwch arolwg teithio i'r ysgol i'w gyflwyno mewn gwasanaeth.

Dolen:

www.keepwalestidy.org/getting-started/getting-started/resources

Fframwaith Rhifedd

Blwyddyn 2

DEFNYDDIO SGILIAU DATA

Elfennau: Casglu a chofnodi data. Cyflwyno a dadansoddi data.
Dehongli'r canlyniadau

Gall dysgwyr:

- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau.

Defnyddio Dwr yng Nghymru ac yn Uganda

ADCDF: Cyfoeth a Thlodi

Cymharwch sut y caiff dwr ei ddefnyddio yng Nghymru ac yn Uganda

Dolen:

http://www.livingandlearningwithwater.com/english/library/Teachers/Saving%20Water%202_WS.pdf

